**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

4 Chwefror 2022

Annwyl Lywydd

Hygyrchedd cyfraith Cymru

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 22 Medi 2021, pan wahoddodd y Pwyllgor Busnes ein Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gynigion y Cwnsler Cyffredinol i foderneiddio'r ffordd y caiff cyfraith Cymru ei strwythuro a'i chyflwyno, ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd cyfyngedig rydym wedi'i wneud.

Ar 29 Tachwedd 2021, clywsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei rhaglen gyntaf ynghylch dyfodol cyfraith Cymru, sy'n ofynnol o dan *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*. Fel rhan o'r sesiwn honno, gwnaethom achub ar y cyfle i ofyn rhai cwestiynau cychwynnol i'r Cwnsler Cyffredinol am ei gynigion ar gyfer y ffordd y caiff cyfraith Cymru ei strwythuro a'i chyflwyno. Yn dilyn y sesiwn, gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ar 3 Rhagfyr 2021 i drafod nifer o faterion mewn rhagor o fanylder, a chafwyd ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol ar 17 Ionawr 2022.

Fel y byddwch yn gwybod, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eang. Ers ei sefydlu, rydym wedi treulio'r rhan fwyaf o'n hamser yn craffu ar is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru a memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU. Yn ein cyfarfod ar 31 Ionawr 2022, gwnaethom drafod yn fanwl eto ein dull o ymdrin â'n cylch gwaith, a sut y gallem fynd ati i wneud y gwaith sydd yn yr arfaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Gwnaethom gytuno y dylid gohirio ein hystyriaeth o gynigion y Cwnsler Cyffredinol am y tro, hyd nes y gallwn eu harchwilio'n drylwyr. Mae gennym ddiddordeb mawr yn y materion hyn ac rydym yn

cydnabod eu pwysigrwydd. Felly, byddwn yn dychwelyd at y gwaith hwn cyn gynted ag y mae ein blaenraglen waith yn ei ganiatáu, a byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ichi pan fyddwn yn gallu gwneud hynny.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd